WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1752A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol Cymru 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Martin Gibson a Mark Jones gyda rheolaeth rhaglen gan Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees a Richard Harries.

# Cynnwys

Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf, gyda lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, lefel fenthyca gymharol sefydlog, a thanwariannau sylweddol ar gyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Nid yw cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i hanes o danwariant sylweddol nac yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i gynlluniau trawsnewid 7

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllidebau refeniw a chyfalaf ac mae'n disgwyl tanwario'i gyllideb yn 2019-20 9

Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio bron i gyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n disgwyl gwneud hynny eto yn y flwyddyn gyfredol 10

Mae gan y Cyngor lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn rhannol oherwydd ei danwariannau refeniw a chyfalaf parhaus 11

Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor 13

Mae lefel fenthyca'r Cyngor wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- perfformiad yn erbyn y gyllideb;
- cyflawni cynlluniau arbedion;
- defnyddio cronfeydd wrth gefn;
- y dreth gyngor; a
- benthyca.

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £337.7Miliwn**[1]



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 8,400 o bobl**[2]



**Roedd asedau hirdymor y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £1.2Biliwn**[3]

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.


[1] Ffynhonnell: Cyllideb Refeniw Net ar gyfer 2019-20 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2019.

[2] Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2018-19 https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/Council-and-democracy/AnnualPerformanceRepor1819.aspx.

[3] Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2018-19.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor[4]

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian yr amcangyfrifodd y Cyngor y byddai'n ei gael o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2019-20.




4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Ionawr 2020.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf, gyda lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, lefel fenthyca gymharol sefydlog, a thanwariannau sylweddol ar gyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid yw cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i hanes o danwariant sylweddol nac yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i gynlluniau trawsnewid;

[4] Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Rhagfyr 2019.

- dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllidebau refeniw a chyfalaf ac mae'n disgwyl tanwario'i gyllideb yn 2019-20;
- mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio bron i gyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n disgwyl gwneud hynny eto yn y flwyddyn gyfredol;
- mae gan y Cyngor lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn rhannol oherwydd ei danwariannau refeniw a chyfalaf parhaus;
- mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor; ac
- mae lefel fenthyca'r Cyngor wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf.

# Adroddiad manwl

## Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf, gyda lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, lefel fenthyca gymharol sefydlog, a thanwariannau sylweddol ar gyllidebau dros y blynyddoedd diwethaf

### Nid yw cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i hanes o danwariant sylweddol nac yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i gynlluniau trawsnewid

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom


7 Canfuom nad yw cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i hanes o danwariant sylweddol nac yn rhoi adlewyrchiad llawn o'i gynlluniau trawsnewid. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cwmpasu'r cyfnod 2019-2024, a bennwyd ganddo ym mis Chwefror 2019. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyngor wrthi'n adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a oedd i fod i gael ei ystyried gan y Cyngor ym mis Chwefror 2020.
- mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllidebau refeniw a chyfalaf dro ar ôl tro dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hynny wedi cyfrannu at ei lefel gynyddol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd bellach yn uwch na £119 miliwn, yn anad dim yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2019-20, lle mae'r cronfeydd wrth gen hyn wedi cynyddu £20.7 miliwn.
- wrth gyfrifo'r gyllideb yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, defnyddir cyllideb y flwyddyn flaenorol fel sail i ragweld y gyllideb y byd ei hangen ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Nid yw'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i wariant net gwirioneddol y flwyddyn flaenorol i oleuo'i broses ar gyfer pennu'r gyllideb.

- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn amcangyfrif bwlch o ran cyllid o £57.4 miliwn mewn incwm refeniw yn erbyn gwariant wedi’i gynllunio rhwng 2019-20 a 2023-24.

## Arddangosyn 4: bwlch o ran cyllid a ragamcanir [5]

Mae’r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae’r Cyngor wedi’i adnabod ar gyfer pob un o’r pum mlynedd rhwng 2019-20 a 2023-24, sy’n gyfanswm o £57.4 miliwn.




- mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi’i fodelu ar sail cynnydd yn y Dreth Gyngor o 6.95% yn 2019-20 ac yna cynnydd o 4.52% bob blwyddyn hyd at 2023-24.
- ym mis Mehefin 2019, fe gytunodd y Cabinet ar raglen drawsnewid, a elwir yn ‘#tîmcaerffili – Yn well gyda’n Gilydd’, sy’n rhaglen integredig o brosiectau adfywio cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sydd wedi’u bwriadu i ail-lunio’r Fwrdeistref. Fodd bynnag, pan gafodd ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2019 dim ond cysylltiadau lefel uchel â’i chynlluniau ariannol yr oedd y rhaglen yn eu cynnwys. Yn ôl yr hyn ddywedodd swyddogion y Cyngor wrthym, wrth i’r rhaglen ddatblygu bydd yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y manteision ariannol sy’n gysylltiedig â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- ym mis Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynnydd o 4.1% yng Ngrant Cynnal Refeniw’r Cyngor ar gyfer 2020-21.

[5] Ffynhonnell: Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019/20 i 2023/24 - Chwefror 2019.

- rhoddodd y Cabinet a'r Cyngor Llawn ystyriaeth i oblygiadau'r cynnydd o 4.1% ym mis Chwefror 2020, fel rhan o gymeradwyo cyllideb 2020-21.

## Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllidebau refeniw a chyfalaf ac mae'n disgwyl tanwario'i gyllideb yn 2019-20

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fel a ganlyn: dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllidebau refeniw a chyfalaf ac mae'n disgwyl tanwario'i gyllideb yn 2019-20. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- am y tair blynedd ariannol hyd at 2018-19, mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllideb refeniw o gyfanswm o £31.1 miliwn (Arddangosyn 5). Dros yr un cyfnod mae'r Cyngor wedi tanwario'i gyllideb gyfalaf o £90 miliwn.
- yng nghyfarfod ei Bwyllgor Polisi ac Adnoddau ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd y Cyngor adroddiad a oedd yn nodi'r rhagolygon ar gyfer 2019-20, sef:
  - tanwariant o £2.1 miliwn ar ei wariant refeniw net; a
  - thanwariant o £54.6 miliwn (77%) ar ei wariant cyfalaf wedi'i gynllunio o £71.15 miliwn.
- er bod yr adroddiad i'r Pwyllgor Polisi ac Adnoddau'n rhoi diweddariad ar gynnydd pob cyfarwyddiaeth o ran cyflawni eu rhaglen o arbedion wedi'u cynllunio, roedd hwn ar ffurf naratif ac nid oedd yn bosibl gwerthuso sefyllfa gyffredinol ag unrhyw sicrwydd.

Arddangosyn 5: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

| | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net (£Miliwn) | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net (£Miliwn) | Swm y (tanwariant)/ gorwariant ar y cyfan (£Miliwn) | Canran y (tanwariant)/ gorwariant |
|---|---|---|---|---|
| 2016-17 | 324.391 | 313.689 | (10.7) | (3.3)% |
| 2017-18 | 325.431 | 316.748 | (8.7) | (2.7)% |
| 2018-19 | 332.043 | 320.309 | (11.7) | (3.5)% |
| 2019-20[6] | 337.745 | 335.633 | (2.1) | (0.6)% |
| **Cyfanswm** | **1,319.610** | **1,286.379** | **(33.2)** | **(2.5)%** |

## Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio bron i gyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n disgwyl gwneud hynny eto yn y flwyddyn gyfredol

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fod y Cyngor wedi cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio bron i gyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf a'i fod yn disgwyl gwneud hynny eto yn y flwyddyn gyfredol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor broses gadarn a manwl i lunio'i raglen o arbedion wedi'u cynllunio a monitro'r modd y maent yn cael eu cyflawni; ac
- mae'r Cyngor wedi nodi'r arbedion wedi'u cynllunio canlynol:

[6] Ffynhonnell: y tanwariant rhagamcanol o £2.1 miliwn, yn ôl Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw'r Cyngor i'w Bwyllgor Polisi ac Adnoddau ym mis Ionawr 2020.

- yn 2017-18, £8.9 miliwn (98.5%) o'r arbedion wedi'u cynllunio o £9 miliwn;
- yn 2018-19, £6.4 miliwn (94.3%) o'r arbedion wedi'u cynllunio o £6.8 miliwn;
- yn 2019-20, rhagwelir £13.2 miliwn (95%) o'r arbedion wedi'u cynllunio o £13.9 miliwn; ac
- yn 2020-21 mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni arbedion o £15.7miliwn[7].

Arddangosyn 6: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

| £6.8m | £6.4m | £0.4m | 94% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

## Mae gan y Cyngor lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn rhannol oherwydd ei danwariannau refeniw a chyfalaf parhaus

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fod gan y Cyngor lefel fwyfwy uchel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn rhannol oherwydd ei danwariannau refeniw a chyfalaf parhaus. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

[7] Ffynhonnell: Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Chwefror 2019.

- Mae gan y Cyngor strategaeth cronfeydd wrth gefn ac mae'n cyflwyno diweddariadau ar ei ddefnydd o gronfeydd wrth gefn i'r pwyllgor craffu a'r Cabinet cyn y cytunir yn derfynol ar ei gyllideb flynyddol.
- Mae'r Cyngor yn categoreiddio'i gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel a ganlyn:
  – Balans y Gronfa Gyffredinol.
  – Balansau Meysydd Gwasanaeth.
  – Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy.
  – Grantiau Cyfalaf Heb Eu Cymhwyso.
  – Cronfeydd Wrth Gefn SLIU / SGU.
  – Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Gwariant Cyfalaf.
  – Cronfeydd Wrth Gefn Eraill a Glustnodwyd.
  – Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Ysgolion.
  – Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ar gyfer Yswiriant.
- Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym fod y sail resymegol dros y categorïau hyn o gymorth i'w rheoli'n ariannol, ond bod y modd y defnyddir y balansau yn y pen draw yn rhyng-gyfnewidiol.

Arddangosyn 7: cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd y flwyddyn[8]

| | Gwerth cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd y flwyddyn (£Miliwn) | Gwerth y cynnydd (£Miliwn) | Cynnydd canrannol yn ystod y flwyddyn | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel canran o'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2015-16 | 82.2 | | | |
| 2016-17 | 89.0 | 6.8 | 8.3% | 27.4% |
| 2017-18 | 91.6 | 2.6 | 2.9% | 28.1% |
| 2018-19 | 98.3 | 1.9 | 2.1% | 29.6% |
| 2019-20 | 119.0 | 20.7 | 21.1% | 35.2% |


- Rydym yn deall bod y Cyngor, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi defnyddio benthyca mewnol i dalu costau rhai prosiectau cyfalaf. Roedd adroddiad i Bwyllgor Polisi ac Adnoddau'r Cyngor ym mis Ionawr 2020[9] yn nodi na fydd

[8] Ffynhonnell: diweddariad canol blwyddyn ar y Cronfeydd Wrth Gefn i'r Pwyllgor Polisi ac Adnoddau ar 14 Ionawr 2020.

[9] Ffynhonnell: Strategaeth Flynyddol Rheoli Trysorlys, Dangosyddion Darbodus Cyllid Cyfalaf a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw – adroddiad i'r Pwyllgor Polisi ac Adnoddau ar 14 Ionawr 2020.

y Cyngor yn mabwysiadu polisi benthyca mewnol mwyach oni bai bod y polisi’n ddarbodus.

Arddangosyn 8: swm y cronfeydd wrth gefn o’i gymharu â’r gyllideb flynyddol, 2018-19



**£332m**
Cyllideb Refeniw Net

**£98.3m**
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy

**29.6%**
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o’r Gyllideb Refeniw Net

## Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor

### Pam fod cyfraddau casglu’r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu’r swm o dreth gyngor sy’n ddyledus i’r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu’r pwysau ariannol ar y Cyngor a’i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell ariannu fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae’n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fod gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cytunodd y Cyngor ar gynnydd o 6.95% yn y dreth gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Mae ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys tybiaeth gynllunio o gynnydd blynyddol o 4.52% ar gyfer pob un o’r pedair blynedd ddilynol. Mae’r Cyngor yn pennu’r cynnydd yn y dreth gyngor bob blwyddyn.
- mae’r Cyngor wedi cynnal swm isel o dreth gyngor a gaiff ei dileu fel canran o gyfanswm dyled y dreth gyngor ers 2014-15.
- ers 2012-13, mae’r Cyngor wedi profi gostyngiad graddol yng ngwerth yr ôl-ddyledion treth gyngor a ddygir ymlaen ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Ar ddechrau 2012-13, roedd gwerth ôl-ddyledion gwirioneddol yn agos at £4 miliwn ac ar gyfer 2018-19 roedd gwerth ôl-ddyledion wedi gostwng i £3.3 miliwn.

- mae'r dreth gyngor gasgladwy'n uwch na'r incwm o'r dreth gyngor sydd wedi'i gyllidebu gan y Cyngor am ei fod yn pennu elfen o ddiffyg talu disgwyliedig yn ei refeniw wedi'i gyllidebu. Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20, yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig, Chwefror 2019, yn nodi mai £1.05 miliwn oedd gwerth yr eitem ddigwyddiadol hon ar gyfer diffyg talu'r dreth gyngor.

### Arddangosyn 9: cyfraddau casglu'r dreth gyngor



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£64.5m** (97%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£66.5m**[10]

## Mae lefel fenthyca'r Cyngor wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom fod lefel fenthyca'r Cyngor wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae Arddangosyn 10 yn dangos bod cyfanswm lefel fenthyca'r Cyngor wedi aros yn cymharol sefydlog dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r lefel

[10] Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Stats Cymru – Cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor yng Nghymru: 2018-19.

fenthyca hon o fewn y terfynau a bennwyd yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2003 a Chod Darbodus CIPFA.

- nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm buddsoddiadau masnachol a ariannwyd trwy fenthyca.
- fel rhan o'i Strategaeth Drawsnewid, mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Fasnachol a Buddsoddi. Bydd hon yn nodi dull newydd lle mae masnacheiddio yn y cwestiwn fel modd i gynyddu incwm i gefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a gall helpu gwasanaethau dewisol, yn arbennig, i barhau i fod yn gyfnerth o safbwynt ariannol.
- mae'r Cyngor wedi adolygu ei bortffolio o fuddsoddiadau i gyflawni cyfradd uwch o adenillion. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi £20m mewn Cronfeydd Cytunol Strategol hirdymor gyda'r nod o greu incwm buddsoddi blynyddol ychwanegol o £718k.

Arddangosyn 10: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor [11]

| Blwyddyn ariannol | Benthyciadau hirdymor o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth (£miliwn) | Benthyciadau byrdymor o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth (£miliwn) | Cyfanswm (£miliwn) |
|---|---:|---:|---:|
| **2015-16** | 287.5 | 7.7 | 295.2 |
| **2016-17** | 282.3 | 14.1 | 296.4 |
| **2017-18** | 279.4 | 10.8 | 290.2 |
| **2018-19** | 277.1 | 6.5 | 283.6 |

[11] Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru